Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Cyflogau a Threuliau – Mark Drakeford AS

8 Chwefror 2022

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 19 Ionawr, pan wnaethoch ofyn:

> *Could you please tell me how much has Mark Drakeford been paid in wages and expenses from January 2020 to January 2022?*

Mae'r **Bwrdd Taliadau** yn gyfrifol am bennu cyflogau, pensiynau a lwfansau Aelodau o'r Senedd a staff cymorth yr Aelodau.

Ar gyfer 2020-21 mae cyflog y Prif Weinidog, Mark Drakeford AS, i'w weld ar dudalen 23, Pennod 3, yn yr **Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd.**

Ar gyfer 2021-22 gellir gweld cyflog y Prif Weinidog, Mark Drakeford AS, ar dudalen 16, Adran 3, Tabl 1 yn y **Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau ar gyfer y Chweched Senedd**

Mae'r rheolau am yr hyn y mae gan Aelodau o'r Senedd yr hawl i wneud cais amdano hefyd wedi'u nodi yn y **Penderfyniad**. Yn gyffredinol, bydd hawliadau am dreuliau'n dod dan un o bedwar prif fath o lwfans:

- Lwfans Costau Swyddfa (h.y. costau swyddfa sy'n gysylltiedig â'u dyletswyddau fel Aelodau o'r Senedd).
- Lwfans Costau Ychwanegol (h.y. treuliau yr eir iddynt wrth aros dros nos i ffwrdd o'u prif gartref at ddibenion cyflawni eu dyletswyddau fel Aelodau o'r Senedd).
- Lwfans Costau Teithio (h.y. costau teithio y bydd Aelodau o'r Senedd yn mynd iddynt oherwydd eu dyletswyddau yn y Senedd).
- Lwfans Gwariant Staffio (h.y. costau yr eir iddynt yn ymwneud â chyflogi staff)

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6224
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Cyhoeddir yr holl hawliadau ar ein **system lwfansau** dri mis yn ddiweddarach a bydd yn dangos yn y flwyddyn ariannol y mae'r gost yn gysylltiedig â hi.

I ddod o hyd i'r wybodaeth hon ar ein **system lwfansau**, dilynwch y cyfarwyddiadau hyn:

i. Dewiswch y blynyddoedd ariannol yr hoffech chwilio amdanynt.
ii. I ddewis Aelod penodol o'r Senedd, cliciwch ar 'DEWIS AELOD' i weld rhestr o Aelodau blaenorol a phresennol, a dewiswch yr Aelod(au) penodol. Os ydych chi am chwilio'r system am yr holl Aelodau, gadewch hwn yn wag.
iii. Os ydych am chwilio am fath penodol o lwfans, yn 'DEWIS MATH O LWFANS', dewiswch un neu fwy o gategorïau lwfans. Os ydych am chwilio'r system ar gyfer pob un, gadewch y categori hwn yn wag.
iv. Dewiswch 'Chwilio'

Os na allwch ddilyn y cyfarwyddiadau hyn, rhowch wybod i mi.

Gan fod y wybodaeth hon eisoes ar gael, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd ar gael yn rhesymol drwy ddulliau eraill.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae'r Senedd wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu'n ysgrifenedig i

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN